Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

NEGES Y MAER

SEFYLLFA CASTELL HOWELL, CAERFYRDDIN

Mae pobl yn sylweddoli pa mor anodd fyddai'r penderfyniad hwn wedi bod i'r Gweithredwyr.

Maegwreiddiau'r cwmni yn ddwfn yn ein cymunedau lleol. Mae wedi parhau i weithredu o Sir Gaerfyrddin yn cyflogi pobl leol, prynu a dosbarthu cynnyrch lleol ymhell ac agos wrth gynnal ethos busnes teuluol.

Mewn sawl ffordd Castell Howell yw ein cymuned. Hydwyth, arloesol, balch, angerddol a chefnogol. Does ddim llawer o elusennau na grwpiau codi arian nad ydynt wedi elwa o haelioni Brian Castell Howell ac wrth gwrs mae'r Cwmni'n noddi mwy na'u cyfran deg o sefydliadau chwaraeon a chlybiau lleol.

Mae emosiwn y gymuned yn un o dristwch ond hefyd yn un o dynnu at ein gilydd i helpu'r busnes Ers i'r busnes ddechrau o ychydig rewgelloedd mewn adeilad allanol yr holl flynyddoedd yn ôl mae'r gymuned wedi ei gefnogi.

Mae cymaint o barch gan bawb at y cwmni ac rwy'n sicr y bydd y gymuned yn ei gefnogi ym mhob ffordd bosib i helpu'r cwmni lywio i ddyfroedd tawelach. Gallaf ond obeithio bod Llywodraeth Cymru a'r DU yn gwneud yr un peth.